**ATODIAD 1**

# CANLLAWIAU STATUDOL AR SWYDDOGAETH AC ATEBOLRWYDD CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## Cyfrifoldebau Craidd

- Darparu arweiniad proffesiynol clir ar draws y gwasanaethau cymdeithasol.

- Gallu cysylltu â'r Prif Weithredwr â'r cynghorwyr yn uniongyrchol a'u cynghori ar faterion gwasanaethau cymdeithasol a'r cyfeiriad a'r camau gweithredu y dylai'r awdurdod eu cymryd i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran gwasanaethau cymdeithasol.

- Sicrhau bod yna drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, ac adrodd ar berfformiad yr awdurdod o ran y trefniadau hyn, ar lefel gorfforaethol ac i Gynghorwyr.

- Sicrhau bod gan yr awdurdod drefniadau diogelu priodol i ddiogelu plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn sy'n agored i niwed, ac adrodd ar eu heffeithiolrwydd ar lefel gorfforaethol ac i Gynghorwyr.

- Cyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynllunio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol.

- Sicrhau bod yna ddigon o drefniadau wedi'u gwneud i'r gwasanaethau cymdeithasol allu gweithio'n effeithiol ag eraill, tu fewn a thu allan i'r awdurdod, er mwyn cyflawni'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac i gyfrannu at gyflawni amcanion polisi ehangach.